# PAPURAU BUSNES / BUSINESS PAPERS

## Rhan 1 – Adran E / Part 1- Section E

# DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG /

# WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

### A GYFLWYNWYD / TABLED ON

## 31/3/00

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2000-0035 Defnyddio baneri cenedlaethol ar blât rhifau ceir/Use of National Flags on car number plates

03 Apr 2000 Raised by Brian Gibbons FRCGP

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad yn nodi'r cynnig ar gyfer newid y ffordd y bydd platiau rhifau ceir yn cael eu ffurfio o fis Medi 2001. Ar ôl y dyddiad hwnnw ni fydd modd i geir a gofrestrwyd yng Nghymru arddangos y faner neu'r arwyddlun cenedlaethol ar eu plât rhif. Credwn fod hyn yn annerbyniol a gofynnwn am gael cadw'r opsiwn o gynnwys y faner neu'r arwyddlun cenedlaethol.*
*The Assembly notes the proposed changes in the way car number plates will be formulated from September 2001. After that date cars registered in Wales will not be able to display the National flag or emblem on the number plate. We believe that this is unacceptable and ask that the option of including the National flag or emblem be retained*

## OPIN-2000-0034 Cydnabod Robert Owen 1771-1858/ Recognition of Robert Owen 1771-1858

03 Apr 2000 Raised by Mick Bates

No Subscribers

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydnabod gwaith dyngarol Robert Owen, diwygiwr cymdeithasol a sylfaenydd y Mudiad Cydweithredol a anwyd yn Sir Drefaldwyn. Rydym hefyd yn galw ar y Weithrediaeth Gymreig i gynnig ffyrdd gwreiddiol er mwyn coffáu gwaith Robert Owen a Chymry blaengar eraill o fewn bywyd cyhoeddus Cymru.*
*This Assembly recognises the humanitarian achievements of Robert Owen, Montgomeryshire-born social reformer and founder of the Co-operative Movement. Furthermore we call on the Welsh Executive to propose innovative ways in which the achievements of Robert Owen and other Welsh progressives can be commemorated within Welsh public life.*

## OPIN-2000-0033 Cau canghennau Banc Barclays yng Nghymru/ Barclays Bank branch closures in Wales

29 Mar 2000 Raised by Lorraine Barrett, Brian Gibbons FRCGP, Janice Gregory, Huw Lewis, Gwenda Thomas

6 Subscribers:
Mick Bates
Richard Edwards
Kirsty Williams
Peter Black
Ann Jones
Owen John Thomas MA

*Mae'r Cynulliad yn nodi'r rhaglen arfaethedig ar gyfer cau canghennau Banc Barclays ac mae'n mynegi ei bryder dwys ynghylch effaith bosibl dileu cyfleusterau rheoli cyllid a bancio beunyddiol o rai o'r cymunedau hynny yng Nghymru sy'n cael eu dieithrio fwyaf yn gymdeithasol a'r bygythiad i nifer fawr o swyddi yn y sector bancio. Yr ydym yn galw ar y Cynulliad i adolygu ei berthynas bresennol a'i gyfrif sylweddol gyda Banc Barclays petai'r cynigion hyn yn cael eu gwireddu. Yr ydym hefyd yn galw ar y Cynulliad i roi mwy o ystyriaeth i wneud penderfyniadau moesegol wrth ddewis deiliaid cyfrif pwysig.*

*This Assembly notes the proposed programme of branch closures by Barclays Bank and expresses its grave concern at the potential impact of withdrawing everyday money management and banking facilities from some of the most socially excluded communities in Wales and the threat to a large number of jobs in the banking sector. We call for the Assembly to review its current relationship and substantial account with Barclays Bank should these*

*proposals go ahead. Furthermore we call for the Assembly to have a greater regard to ethical decision making in its choice of major account holder.*

## OPIN-2000-0032 Gwrthwynebu gorfodi ffioedd ychwanegol ar fyfyrwyr prifysgol/Opposition to top up fees being imposed on university students

29 Mar 2000 Raised by Christine Humphreys, Jenny Randerson

4 Subscribers:
Mick Bates
Owen John Thomas MA
Kirsty Williams
Peter Black

*Mae'r Cynulliad o'r farn:*
*1. y dylai addysg fod ar gael i bawb ac na ddylai fod yn seiliedig ar y gallu i dalu;*
*2. y byddai ffioedd ychwanegol yn creu system brifysgol ddwy haen ac yn atal myfyrwyr tlotach rhag ceisio cael mynediad;*
*3. ac mae'n mynegi pryder bod rhai sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn ystyried cyflwyno ffioedd ychwanegol.*
*Mae'r Cynulliad yn penderfynu:*
*Galw ar y Llywodraeth i sicrhau na chyflwynir ffioedd ychwanegol.*

*This Assembly believes:*
*1. that education should be accessible to all and should not be based on the ability to pay;*
*2. that top-up fees would create a two-tier university system and would strongly discourage access by poorer students;*
*3. expresses concern that some H.E. institutions in Wales may be considering the introduction of top-up fees.*
*This Assembly calls upon the Government to ensure that top-up fees are not introduced.*

## OPIN-2000-0031 Sglerosis Ymledol (MS) a Beta Interferon/ Multiple Sclerosis and Beta Interferon

23 Mar 2000 Raised by Huw Lewis

3 Subscribers:

Mick Bates
Peter Black

Kirsty Williams

*Mae'r Cynulliad yn cydnabod fod astudiaethau diweddar wedi dangos fod rhagnodi Beta Interferon i bobl sy'n dioddef o Sglerosis Ymledol Cynyddol Eilaidd yn gallu arwain at fanteision clinigol ac iechyd sylweddol. Yn dilyn argymhellion y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yn ddiweddarach eleni, dylai'r Cynulliad ystyried yn ofalus effaith bositif Beta Interferon wrth arafu'r ffordd y mae Sglerosis Ymledol Cynyddol Eilaidd yn datblygu. Yr ydym yn croesawu penderfyniad y llywodraeth i ofyn i NICE wneud adroddiad ar y mater hwn, a rhaid i'r Cynulliad archwilio'r canfyddiadau hyn yn ofalus i sicrhau fod pobl sy'n dioddef o Sglerosis Ymledol yn mwynhau ansawdd bywyd mor uchel â phosibl.*

*The Assembly recognises that recent studies have shown that the prescribing of Beta Interferon for sufferers of Secondary Progressive Multiple Sclerosis can result in substantial clinical and health benefits. Following the recommendations of NICE later this year, the Assembly should consider carefully the positive effect that Beta Interferon can have in slowing the rate at which Secondary Progressive MS develops. The decision of the government to ask NICE to report on this issue is welcome, and the Assembly must examine these findings carefully to ensure that MS sufferers enjoy as high a quality of life as possible.*

## OPIN-2000-0030 Budd-daliadau a Gorchmynion Cymuned/ Benefits and Community Orders
## 23 Mar 2000 Raised by Ieuan Wyn Jones

6 Subscribers:

Mick Bates
Michael German OBE
Owen John Thomas MA
Christine Humphreys
Peter Black
Ron Davies

*Mae'r Cynulliad yn datgan pryder fod cynnig i ddiddymu budd-daliadau oddi wrth unigolion sy'n torri gorchmynion cymuned neu drwyddedau yn dilyn eu rhyddhau o'r carchar; yn tynnu sylw at oblygiadau hawliau dynol y cynnig a'r effaith andwyol a gaiff hyn ar staff y gwasanaeth prawf a staff y swyddfeydd budd-daliadau; ac yn galw ar llywodraeth Prydain i ddiddymu y ddeddfwriaeth arfaethedig.*

*The Assembly expresses its concern at the proposal to withdraw state benefits from people who breach community orders or licences following release from prison; draws attention to the*

*human rights implication of the proposal and the adverse impact on probation staff and those working in Benefit Agency offices; and calls on the UK government to withdraw the proposed legislation.*

## OPIN-2000-0028 Apêl Ambiwlans Awyr Cymru/Welsh Air Ambulance Appeal

14 Mar 2000 Raised by Ann Jones

17 Subscribers:

- Mick Bates
- Peter Black
- Gareth Jones
- Christine Humphreys
- Ron Davies
- Rhodri Glyn Thomas
- Lorraine Barrett
- Cynog Dafis
- Kirsty Williams
- Jenny Randerson
- John Griffiths LLB
- Michael German OBE
- Val Feld
- Richard Edwards
- Brian Gibbons FRCGP
- Janice Gregory
- David Melding

*Mae'r Cynulliad yn cefnogi Apêl Gwasanaeth Ambiwlans Cymru am arian gan y cyhoedd yng Nghymru tuag at gostau gweithredu dau hofrennydd fel Ambiwlans Awyr. Gobeithiwn y bydd pobl Cymru'n ymateb yn frwdfrydig i'r Apêl Ambiwlans Awyr er mwyn i Ambiwlans Awyr cyntaf Cymru allu cychwyn ar ei waith erbyn yr hydref.*

*This Assembly supports the Wales Ambulance Service's Appeal for donations from the Welsh public to fund operating costs of the two helicopter Air Ambulances. We hope that the Air Ambulance Appeal will meet with an enthusiastic response from people in Wales in order that Wales first Air Ambulance can get off the ground by the Autumn.*

## OPIN-2000-0027 Gwrthwynebu gostyngiad y Llywodraeth o 1c yn y Dreth/Opposition to the Governments 1p tax cut

13 Mar 2000 Raised by Christine Humphreys

7 Subscribers:

Mick Bates
Rhodri Glyn Thomas
Peter Black
Kirsty Williams
Jenny Randerson
Michael German OBE
Owen John Thomas MA

*Mae’r Cynulliad hwn yn credu bod Llywodraeth y DU yn cyfeiliorni wrth dorri 1c oddi ar Dreth Incwm yn ystod y flwyddyn drethi nesaf, ac yn lle y dylai wario’r arian ar wella’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.*

*This Assembly believes that the UK Government is wrong to cut income tax by 1p this coming tax year, and should instead spend the money on improving the National Health Service.*

## OPIN-2000-0026 Cadw Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol / Retention of Section 28 of the Local Government Act

10 Mar 2000 Raised by David Davies

2 Subscribers:

Alun Cairns
William Graham JP

*Mae’r Cynulliad yn credu y dylid cadw Adran 28 y Ddeddf Llywodraeth Leol. Er hynny mae hefyd yn credu y dylid ei diwygio i egluro nad atal athrawon rhag ymdrin â’r broblem o fwlian homoffobig mewn ysgolion yw bwriad ‘Adran 28’.*
*Dylai’r gwelliant i’w ychwanegu at ddiwedd is-adran (2) fod fel a ganlyn:*
*'or prevent the headteacher or governing body of a maintained school, or a teacher employed by a maintained school, from taking steps to prevent any form of bullying'.*

*This Assembly believes that Section 28 of the Local Government Act should be retained. However it also believes that it should be amended, to make it clear that 'Section 28' is not intended to prevent teachers from addressing the problem of homophobic bullying in schools.*
*The amendment to be added to the end of subsection (2) should read;*
*'or prevent the headteacher or governing body of a maintained school, or a teacher employed*

*by a maintained school, from taking steps to prevent any form of bullying'.*

## OPIN-2000-0025 Peiriannau Arian Di-dâl/Free Cash machines

03 Mar 2000 Raised by Peter Black

2 Subscribers:

- Mick Bates
- Kirsty Williams

*Mae'r Cynulliad hwn yn cefnogi'r sefydliadau ariannol hynny sy'n parhau i adael i bobl ddefnyddio eu peiriannau arian yn ddi-dâl ac yn annog pob banc i beidio â chodi tâl ychwanegol, oherwydd yr effaith niweidiol a gaiff hyn ar y defnyddiwr yn gyffredinol ac yn arbennig y rhai sydd ar incwm isel ac sy'n byw mewn ardaloedd sydd heb lawer o beiriannau arian.*

*This Assembly supports those financial institutions that are continuing to offer free access to cash machines and urges all banks not to adopt surcharging, due to the adverse effect this will have on the consumer in general and particularly those on low incomes and living in areas with limited cash machine coverage.*

## OPIN-2000-0024 Rhwydwaith Atal Tlodi Ewrop / The European Anti-Poverty Network

01 Mar 2000 Raised by Alison Halford

13 Subscribers:

- Mick Bates
- Peter Black
- John Griffiths LLB
- Janet Ryder
- Kirsty Williams
- Janice Gregory
- Richard Edwards
- Elin Jones
- Cynog Dafis
- Michael German OBE
- Janet Davies
- Jenny Randerson

Ron Davies

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cefnogi ac yn canmol nod y Rhwydwaith i gyflwyno'r tri phwynt canlynol i'w trafod yn y Gynhadledd Rynglywodraethol Ewropeaidd nesaf.*
*Yn gyntaf, dylai'r Cytundeb diwygiedig gydnabod bod angen integreiddio'r nod o gynhwysiant cymdeithasol yn holl bolisiau'r Gymuned.*
*Yn ail, dylid cynnwys cyrff an-lywodraethol fel partneriaid wrth drafod polisiau gyda'r sefydliadau. Gelwir hyn yn ddeialog sifil.*
*Yn drydydd, dylid cynnwys Siarter Hawliau Sylfaenol yn y Cytundeb.*

*The National Assembly supports and applauds the EAPN's objective to have the following three points tabled for discussion at the next European Intergovernmental Conference.*
*Firstly, the revised Treaty should recognise the need to integrate the objective of social inclusion in all Community policies.*
*Secondly, the inclusion of non-governmental organisations as partners in a policy dialogue with the institutions also called civil dialogue.*
*Thirdly, the inclusion of the Charter of Fundamental Rights in the Treaty.*

## OPIN-2000-0017 Achos Dau Caergrawnt/The Cambridge Two Case

08 Feb 2000 Raised by Michael German OBE

8 Subscribers:

Mick Bates
Peter Black
Kirsty Williams
Cynog Dafis
Val Feld
Gareth Jones
John Griffiths LLB
Jenny Randerson

*Mae'r Cynulliad hwn yn cydanbod y goblygiadau difrifol i'r rhai sy'n gweithio gyda'r digartref yng Nghymru yn deillio o garcharu Ruth Wyner a John Brock o Ganolfan Ddydd Wintercomfort Caergrawnt, ac yn galw ar yr Ysgrifennydd Cartref i roi sylw ar frys i'r materion canylynol:*
*- Cynnal adolygiad llawn o achosion Ruth Wyner a John Brock a'r cefndir iddynt*
*- Cynnal adolygiad o'r Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau fel na fydd achosion fel hwn yn codi yn y dyfodol*

*This Assembly recognises the serious implications for those working with the homeless in*

*Wales of the imprisonment of Ruth Wyner and John Brock of Cambridge's Wintercomfort Day Centre, and calls on the Home Secretary to give urgent attention to the following matters:*
*- Conducting a full review of the cases of Ruth Wyner and John Brock and the background to them*
*- Conducting a review of the Misuse of Drugs Act so that cases such as this will not arise in the future*

## OPIN-2000-0016 Camfaethiad yng Nghymru: problem iechyd y cyhoedd/Malnutrition in Wales: A Public Health Problem

08 Feb 2000 Raised by Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther, David Melding, Kirsty Williams

17 Subscribers:

Mick Bates
Richard Edwards
Peter Black
John Griffiths LLB
Janet Ryder
Rhodri Glyn Thomas
Val Feld
Lynne Neagle
Janice Gregory
Jenny Randerson
Elin Jones
Janet Davies
Michael German OBE
Nicholas Bourne LLB LLM
Owen John Thomas MA
Brian Gibbons FRCGP
Gareth Jones

*Mae'r Cynulliad yn cydnabod bod camfaethiad yn broblem ddifrifol o safbwynt iechyd y cyhoedd yng Nghymru a bod hyd at 160,000 o bobl yng Nghymru mewn perygl. Mae'n cydnabod bod hyd at 40% o bobl a dderbynnir i ysbytai yn dioddef o gamfaethiad a bod camfaethiad yn achosi canlyniadau clinigol andwyol megis cymhlethdodau ar ôl cael llawdriniaeth. Mae'n cydnabod hefyd ei fod yn effeithio ar wellhad pobl o afiechydon a bod hyn yn costio miliynau o bunnau i'r NHS bob blwyddyn. Mae'r Cynulliad yn credu nad oes lle i gamfaethiad nad yw'n cael ei gydnabod na'i drin yn yr NHS. Mae'n credu hefyd y dylai maethiad fod yn rhan allweddol o reolaeth glinigol, ac y dylai fod yn rhan ganolog o bolisi iechyd ac addysg a hyfforddiant gweithwyr iechyd proffesiynol.*

*The Assembly recognises that malnutrition in Wales is a serious public health problem with up to 160,000 people in Wales at risk. It acknowledges that up to 40% of people admitted to hospital are malnourished and that malnutrition causes adverse clinical consequences such as post surgical complications and impaired recovery from disease and this annually costs the NHS millions of pounds. The Assembly believes unrecognised and untreated malnutrition has no place in the NHS, that nutrition should form a key part of clinical governance, have a central role in health policy and education and training of health professionals.*

## OPIN-2000-0015 Dim mwy o safleoedd niwclear yng Nghymru/ No New Nuclear Sites in Wales

02 Feb 2000 Raised by Richard Edwards

30 Subscribers:

- Mick Bates
- Alun Pugh
- Peter Black
- Huw Lewis
- Gwenda Thomas
- Ann Jones
- Janice Gregory
- Rhodri Glyn Thomas
- Carwyn Jones LLB
- Kirsty Williams
- Glyn Davies
- Nicholas Bourne LLB LLM
- Val Feld
- Karen Sinclair
- Ron Davies
- Phil Williams
- Sue Essex
- Helen Mary Jones
- Lorraine Barrett
- Christine Chapman
- Janet Ryder
- Brian Gibbons FRCGP
- Owen John Thomas MA
- Cynog Dafis
- Gareth Jones
- Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
- Janet Davies

John Griffiths LLB
Alison Halford
John Marek

*Mae'r Cynulliad hwn yn credu fel mater o egwyddor na ddylid caniatau safleoedd niwclear newydd yng Nghymru.*

*This Assembly believes as a matter of principle that there should be no new nuclear sites located in Wales*

## OPIN-2000-0014 Pwysigrwydd Rhandiroedd yng Nghymru/ The Value of allotments in Wales

01 Feb 2000 Raised by Jonathan Morgan

24 Subscribers:

Mick Bates
Cynog Dafis
John Griffiths LLB
Richard Edwards
Janet Davies
Alun Pugh
Rhodri Glyn Thomas
Kirsty Williams
Helen Mary Jones
Jenny Randerson
Peter Black
Janice Gregory
Lynne Neagle
Christine Humphreys
Christine Chapman
Owen John Thomas MA
Gareth Jones
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Jocelyn Davies
Ron Davies
Nicholas Bourne LLB LLM
David Melding
Michael German OBE
Alun Cairns

*Mae'r Cynulliad hwn yn:*
*- llwyr gydnabod rôl a budd rhandiroedd o safbwynt cymunedau lleol;*
*- cydnabod potensial rhandiroedd, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, wrth helpu i hybu'r manteision corfforol a therapiwtig a ddaw yn sgil tyfu bwyd y gellir ei fforddio;*
*- gwerthfarwogi'r cyfraniad y mae rhandiroedd yn ei wneud wrth ddiogelu'r amgylchedd, amddiffyn bywyd gwyllt, cadw lleoedd agored, darparu adnoddau cynaliadwy, a'u rôl posibl wrth helpu i gydymffurfio ag Agenda 21;*
*- gwerthfawrogi gwaith Cymdeithas Genedlaethol y Garddwyr Rhandiroedd a Hamdden wrth helpu i gyflawni'r amcanion hyn;*
*- galw ar y Senedd i ddiwygio hen ddeddfwriaeth sy'n effeithio ar randiroedd.*

*This Assembly:*
*- Acknowledges fully the role of allotments in benefiting local communities:*
*- Recognises the current and future potential of allotments in helping to promote the physical and therapeutic benefits of growing affordable food;*
*- Appreciates the contribution allotments pay in protecting the environment, sheltering wildlife, conversing open spaces, providing sustainable resources, and their potential role in assisting Agenda 21 compliance;*
*- Values the work of National Society of Allotment & Leisure Gardeners in helping to achieve these objectives;*
*- Calls on Parliament to reform outdated legislation that affects allotments.*

## OPIN-2000-0013 Ffioedd Hyfforddi Ac Adroddiad Cubie / Tuition Fees And Cubie Report

28 Jan 2000 Raised by Christine Humphreys

5 Subscribers:

Mick Bates
Rhodri Glyn Thomas
Kirsty Williams
Peter Black
Michael German OBE

*PLEASE NOTE PREVIOUS ALLOCATED REF NO 1999-0096*
*Codwyn/Raised 26 January 2000*

*Mae'r Cynulliad yn llongyfarch Senedd yr Alban ar ei chynnig i ddiddymu ffïoedd hyfforddi i holl fyfyrwyr amser llawn yr Alban sy'n derbyn Addysg Bellach ac Uwch yn yr Alban o Hydref 2000 ac yn pwyso ar lywodraeth y DU i ddiddymu ffïoedd hyfforddi i fyfyrwyr Addysg Bellach ac*

*Uwch amser llawn yng Nghymru.*

*The Assembly congratulates the Scottish Executive on its proposals to abolish tuition fees for all Scottish full time Higher and Further Education students in Scotland from Autumn 2000 and urges the UK government to abolish tuition fees for all full time Higher and Further Education students in Wales.*

## OPIN-2000-0012 Bygythiad I Swyddfeydd Post Cefn Gwlad/ Threat To Rural Post Offices

28 Jan 2000 Raised by Nicholas Bourne LLB LLM

5 Subscribers:

Mick Bates
Rhodri Glyn Thomas
Jonathan Morgan
Glyn Davies
Alun Cairns

*PLEASE NOTE PREVIOUS ALLOCATED REF NO 1999-0095*
*Codwyn/Raised 26 January 2000*

*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn galw ar y Weinyddiaeth i weithredu er mwyn atal y bygythiad i Is-Swyddfeydd Post a ddaw o du cynnig y llywodraeth Lafur yn San Steffan i fynnu talu budd-daliadau trwy gyfrifon banc.*
*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod y bydd hyn yn ergyd i'r rheini sy'n derbyn budd-daliadau gan nad yw llawer ohonynt yn meddu ar gyfrifon banc.*
*Cred hefyd fod y cynnig yn bygwth y rhwydwaith o Is-Swyddfeydd Post yng Nghymru gan y bydd yn arwain at ostyngiad yn eu cyllid.*
*Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn cydnabod y bydd hyn yn ergyd arwyddocaol i gymunedau yng nghefn gwlad Cymru a fydd yn colli eu Swyddfeydd Post.*

*The National Assembly calls on the Administration to act to counter the threat to Sub-Post Offices posed by the Labour government at Westminster's proposal that benefits are paid through bank accounts.*
*The National Assembly recognises that this represents a blow to benefit recipients, many of whom do not posses bank accounts.*
*It also believes that the move threatens the network of rural Sub-Post Offices in Wales because of the drop in revenue which will result.*
*The National Assembly recognises that this represents a serious blow to communities in rural Wales which will lose their Post Offices.*

## OPIN-2000-0002 Diwrnod Martin Luther King/ Martin Luther King Day

26 Jan 2000 Raised by Lorraine Barrett

7 Subscribers:

Mick Bates
Michael German OBE
Peter Black
Richard Edwards
Ann Jones
David Melding
Karen Sinclair

*PLEASE NOTE PREVIOUS ALLOCATED REF NO OPIN-1999-0085*
*Codwyn/Raised 17 January 2000*

*Mae'r Cynulliad hwn yn talu teyrnged i'r hyn a gyflawnwyd gan Martin Luther King a diwrnod mawrygu ei fywyd ar 19 Ionawr. Mae'r Cynulliad yn cydnabod ei frwydr dros gydraddoldeb cyfle, ar lefel ddamcaniaethol ac ymarferol, yr oedd ei fywyd yn ei gynrychioli. Mae'n symbol neilltuol o berthnasol i'r Gymru fodern o gofio bod cymaint o waith eto i'w wneud i sicrhau cyfle cyfartal ystyrlon i bawb. Mae'r Cynulliad yn galw hefyd ar gyrff o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gefnogi her y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol i arweinwyr ac i wneud ymrwymiad gweladwy i hybu talent ac amrywiaeth.*

*This Assembly pays tribute to the achievements of Martin Luther King and the annual celebration of his life on January 19th. The Assembly recognises the struggle for equality of opportunity in practice and perception that his life symbolised. This is of particular relevance to modern day Wales with a great deal of work still to do in achieving genuine equality of opportunity for all. This Assembly further calls on public and private sector organisations to sign up to the Commission for Racial Equality's leadership challenge and show a tangible commitment to promoting talent and diversity.*

## OPIN-1999-0077 Millennium Stadium Trust

08 Dec 1999 Raised by Glyn Davies, John Griffiths LLB

12 Subscribers:

Mick Bates

Christine Chapman
Cynog Dafis
Jenny Randerson
Val Feld
Gareth Jones
William Graham JP
Ron Davies
Nicholas Bourne LLB LLM
Brian Hancock
Lorraine Barrett
Peter Rogers

*Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm*

*Mae'r Cynulliad hwn o'r farn y dylai fod yna gynrychiolaeth ehangach ar Ymddiriedolaeth Stadiwm y Mileniwm as y dylai gynnwys yn arbennig gynrychiolwyr o Gyngor Chwaraeon Cymru. Cafodd yr ymddiriedolaeth ei chreu er budd campau lleiafrifol ledled Cymru as mae arni ar hyn o bryd 3 ymddiriedolwr o'r WRU, 3 o Gyngor Sir Caerdydd ac un yr un o ACCAC, y CBI a Bwrdd Elusennau'r Loteri Cenedlaethol.*

*This Assembly believes that there should be wider representation and in particular Sports Council of Wales representation on the Millennium Stadium Trust. The trust was established for the benefit of minority sports throughout Wales and currently comprises 3 trustees from the WRU, 3 from Cardiff County Council and one from ACCAC, CBI and National Lottery Charities Board.*

## OPIN-1999-0039 An Annual Welsh Public Holiday on St David's Day, March 1st

01 Oct 1999 Raised by Nicholas Bourne LLB LLM, Alun Cairns, David Davies, Glyn Davies

3 Subscribers:

Peter Rogers
David Melding
Jonathan Morgan

*Diwrnod Gwyl Blynyddol yug Nghymru ar Ddydd Gwyl Dewi Sant, 1 Mawrth*

*Mae'r Cynulliad hwn yn mynnu bod 1 Mawrth, Dydd Gwyl Dewi Sant, yn cymryd lle Gwyl Banc Calan Mai fel diwrnod gwyl blynyddol. Drwy wneud hynny, tanlinellir hunaniaeth unigryw Cymru o fewn y Deyrnas Unedig gan roi cyfle i bobl Cymru ddathlu diwylliant, hanes a*

*thraddodiadau eu gwlad.*

*The Assembly demands the replacement of the May Day Holiday with an annual public holiday on St David's Day, March 1st. This would underline Wales'unique identity within the UK and allow all Welsh people to celebrate our Welsh culture, history and tradition.*

## Amendments

A01 07 Dec 1999 Raised by John Griffiths LLB, Owen John Thomas MA

20 Subscribers

Ron Davies
Jenny Randerson
Peter Black
Rhodri Glyn Thomas
Janice Gregory
Richard Edwards
Val Feld
Lorraine Barrett
Christine Humphreys
Mick Bates
Dai Lloyd MBBCh MRCGP Dip.Ther
Brian Hancock
Elin Jones
Phil Williams
Carwyn Jones LLB
Brian Gibbons FRCGP
Cynog Dafis
Gareth Jones
Jocelyn Davies
Helen Mary Jones

*Dileu'r geiriau: "cymryd lle Gwyl Banc Calan Mai fel diwrnod", a chynnwys y gair "ddiwrnod"*

*Delete the words: "the replacement of the May Day Holiday"*